Ymwybyddiaeth Iaith – Gweithgaredd 'Gosodiadau' (Canllawiau)

Mae'r gweithgaredd 'gosodiadau' yn rhan allweddol o'r cynllun Ymwybyddiaeth Iaith.

Wrth ystyried oedran a phrofiad y gynulleidfa darged ar gyfer y gweithgaredd hwn, dylid defnyddio gosodiadau gwahanol er mwyn esgor ar drafodaeth ar:

- ddefnydd o iaith;
- agweddau tuag at Y Gymraeg; ac
- ethos sefydliad mewn perthynas ag iaith;

ac er mwyn:

- ystyried/herio stereoteipiau wrth sôn am siaradwyr Cymraeg; a
- hyrwyddo balchder ac agweddau cadarnhaol tuag at Y Gymraeg a'r rôl sydd ganddi yn ein bywydau.

Mae enghreifftiau gwahanol yn yr adran 'Adnoddau' hon ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion. Dylid eu defnyddio fel cyfleoedd i unigolion sôn yn agored am farn a phrofiad mewn perthynas ag iaith.

Gellid manteisio ar gyfleoedd i 'gywiro' camsyniadau a gweithio tuag at gyrraedd consensws.

Garem Jackson